Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cynllun Datblygu Lleol 2 (2017 - 2033)

# Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion

## Drafft Ymgynghori Gorffennaf 2018

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| AMB | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| CDUSB | Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro 2000-2016 |
| CDLl / CDLl (2) | Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun Datblygu Lleol (2) |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| GC | Gwerthusiad Cynaliadwyedd |
| CCA | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |
| AMDL (LHMA) | Asesiad Marchnad Dai Lleol |
| BGSB | Bwrdd Gwasanaethau Sir Benfro |
| APCAP | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| CSP | Cyngor Sir Penfro |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Mabwysiadwyd | Mabwysiadir y Cynllun Datblygu Lleol pan fydd Cyfarfod Cyngor yr Awdurdod yn penderfynu mai hwn fydd y Cynllun Datblygu ar gyfer y Sir ac y bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu presennol. |
| Tai Fforddiadwy | Datblygiad preswyl o dai i'w gwerthu neu eu rhentu yn is na phrisiau'r farchnad a'u cadw fel rhai fforddiadwy yn barhaus |
| Dyraniad Tai Fforddiadwy | Tir a neilltuwyd ar gyfer tai fforddiadwy, naill ai i berchnogion cartrefi am bris isel neu i'w rhentu. |
| Argaeledd a'r Modd y gellir Cyflenwi Tir | Mae'r tir sydd ar gael yn cynnwys tirfeddiannwr sy'n fodlon datblygu neu werthu tir i'w ddatblygu. Mae'r Modd y gellir Cyflenwi tir yn ymwneud â hyfywedd economaidd dod â safle ymlaen |
| Cefn Gwlad | Tir y tu allan i aneddiadau a nodwyd yn yr Hierarchaeth Aneddiadau |
| Cynllun Adnau | Drafft llawn o'r Cynllun sydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y Cyfnod Adneuo. |
| Dyraniad Tai | Safleoedd datblygu preswyl ar gyfer o leiaf 5 uned ac a ddangosir yn y Cynllun Datblygu |
| Seilwaith | Mae seilwaith yn cwmpasu cyflenwadau pŵer, cyflenwad dŵr, dulliau o waredu carthffosiaeth neu ddŵr wyneb, ffyrdd a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill, telathrebu a chyfleusterau sy'n ofynnol fel fframwaith ar gyfer datblygu. |

| | |
|---|---|
| Tai i'r Farchnad | Tai ar werth am brisiau'r farchnad (gall hyn gynnwys hunan-adeiladu neu dai a adeiladir yn ôl y gofyn). |
| 'Cynllunio trwy Apêl' | Cynigion datblygu ad hoc a ddaw ymlaen yn absenoldeb strategaeth ddatblygu i arwain datblygiad |
| Yr Opsiwn a Ffafrir | Yr opsiwn unigol neu'r opsiwn hybrid sy'n deillio o ystyried ystod o opsiynau neu faterion yn dilyn ymgynghori. |
| Strategaeth a Ffafrir | Y ddogfen strategaeth ffurfiol gyntaf ar gyfer adolygu'r CDLl sy'n nodi'r fframwaith a'r polisïau cyffredinol a fydd yn arwain y polisïau a'r cynigion sy'n ymwneud â defnydd tir. |
| Adroddiad Adolygu | Mae hwn yn esbonio lle mae angen newid y CDLl presennol a pham y mae angen ei newid. Mae hefyd yn nodi'r weithdrefn y bydd adolygiad y Cynllun yn ei dilyn. |
| Hierarchaeth Aneddiadau | Dosbarthir aneddiadau o fewn yr hierarchaeth yn ôl poblogaeth a lefel y gwasanaethau yn yr anheddiad. Bydd rhai aneddiadau bach iawn sydd â gwasanaethau cyfyngedig iawn neu ddim gwasanaethau o gwbl yn syrthio y tu allan i'r hierarchaeth ac fe'u diffinnir fel cefn gwlad. |
| Hunan-adeiladu / adeiladu tai yn ôl y gofyn | Datblygiad tai pwrpasol wedi'i gomisiynu a'i reoli gan y meddiannydd bwriedig. Ym mhob achos p'un a yw cartref yn un wedi ei hunan-adeiladu neu ei adeiladu yn ôl y gofyn, bydd perchennog cychwynnol y cartref yn rhoi mewnbwn sylfaenol i'w ddyluniad a'i gynllun terfynol. |

## Tabl Cynnwys

Byrfoddau ..... 2
Rhestr Termau ..... 2
Cyflwyniad ..... 5
1. Materion sy'n wynebu Sir Benfro hyd at 2033 ..... 7
2. Gweledigaeth Ddrafft ..... 10
3. Amcanion Drafft ..... 12
ATODIADAU ..... 14
1. Cysondeb y Weledigaeth Ddrafft yn erbyn yr Amcanion Drafft ..... 14
2. Cysondeb y Weledigaeth gyda Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ..... 17
3. Cysondeb yr Amcanion gyda Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ..... 20
4. Cysondeb â'r Weledigaeth yn erbyn Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro ..... 23
5. Cysondeb yr Amcanion yn erbyn Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro ..... 24

## Cyflwyniad

### *Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol*

i) Mae Cyngor Sir Penfro yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLl) - **Cynllun Datblygu Lleol 2**. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd yn darparu fframwaith polisi diwygiedig ac wedi'i ddiweddaru i arwain datblygiad y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a bod yn sail i benderfyniadau cynllunio a wneir gan y Cyngor Sir. Yn ystod yr **Adolygiad, bydd** y Cynllun Datblygu Lleol presennol (hyd at ddiwedd 2021) yn parhau yn ei le nes mabwysiadir Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2) .

### *Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft*

ii) Cynhyrchwyd yr adroddiad **Materion, Gweledigaeth ac Amcanion** hwn yn ystod cyfnod allweddol yn adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol. Fe'i seilir ar weithdai cychwynnol gyda Chynghorwyr Sir a Rhanddeiliaid Allweddol[1], ac adolygiad o dystiolaeth llinell sail sy'n cynnwys cynlluniau a pholisïau perthnasol. Mae'n darparu set gychwynnol o Faterion, Gweledigaeth ddrafft ac Amcanion drafft y gellir eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer Sir Benfro 2017-2033.

### *Rhoi mewnbwn i'r Strategaeth a Ffafrir a'r Cynllun Adneuo*

iii) Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ac ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi'r **Strategaeth a Ffafrir** ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2. Bydd hyn yn nodi'r ffordd ymlaen y mae'r Cyngor yn ei ffafrio, gan ystyried yr ymgynghoriad ar y papur hwn ac ar bapur ar wahân sy'n cyflwyno **Opsiynau Tai Strategol**. Bydd y Strategaeth a Ffafrir yn canolbwyntio ar fodloni anghenion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal a'i chymunedau. Bydd y Strategaeth a Ffafrir yn cynnwys gofynion twf economaidd cynaliadwy yn ogystal â'r angen am dai newydd a gwasanaethau eraill.

iv) Mae'r **Cynllun Adneuo** yn gam diweddarach o broses y cynllun a bydd yn ddrafft o'r cynllun llawn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yn cynnwys dyraniadau defnydd tir arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer tai, datblygu manwerthu a chyflogaeth a bydd yn nodi polisïau a chynigion ar gyfer defnyddio a diogelu tir.

v) Mae'r Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion hwn yn cynnwys 4 Adran

**Adran 1:** Mae hon yn nodi'r Materion drafft a nodwyd fel y Materion allweddol y mae angen i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd fynd i'r afael â hwy.
**Adran 2:** Mae'r adran hon yn cynnig Gweledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033.

[1] Gweler https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/ldp2-evidence-base - Adroddiadau ar Weithdai Rhanddeiliaid ac Aelodau ar Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion 2018

**Adran 3:** Mae'r adran hon yn cynnig Amcanion Drafft ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033.
**Adran 4:** Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o'r modd y mae'r Weledigaeth a'r Amcanion yn perfformio wrth asesu yn erbyn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd a pha mor gydnaws yw'r Weledigaeth a'r Amcanion gyda nodau Cynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro.

vi) Gellir rhoi sylwadau ar y Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion i gyd yn eich ymateb. Mae holiadur am y papur hwn a'r papur Opsiynau Tai Strategol ar gael ar ein gwefan.

vii) Cynhaliwyd Gwerthusiad Cynaliadwyedd manwl o'r Weledigaeth a'r Amcanion ac mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad X. Fe'i defnyddiwyd i asesu cynaliadwyedd yr elfennau a gynigir.

Cynhelir Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion hwn rhwng y dyddiadau canlynol.

**16 Gorffenaf i'r 10 Hydref 2018**

Bwriad yr ymgynghoriad yw casglu barn ynghylch a yw opsiynau neu elfennau'r opsiynau'n cael eu cefnogi, neu a yw preswylwyr, busnesau neu eraill yn dymuno cynnig opsiynau diwygiedig neu amgen. Bydd y sylwadau a dderbynnir yn sail i ddrafftio'r Strategaeth a Ffafrir, sydd i fod i gael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018.

Anfonwch sylwadau at

ldp@pembrokeshire.gov.uk

neu drwy'r post at

Tîm y Cynllun Datblygu Lleol
Adran Gynllunio
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro SA61 1TP

Er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich diweddaru ynghylch Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol, anfonwch e-bost at ldp@pembrokeshire.gov.uk gyda'ch manylion cyswllt a'ch dewis iaith i gofrestru'ch diddordeb.

# 1. Materion sy'n wynebu Sir Benfro hyd at 2033

1.1. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i ACLl ar ddatblygu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol yn awgrymu y dylai'r CDLl anelu at fod yn strategol, yn gryno ac yn arbennig. Maent yn awgrymu mai un o'r ffyrdd y bydd hyn yn cael ei gyflawni yw trwy ffocysu cynlluniau ar y materion allweddol sy'n wynebu ardal[2].

1.2. Datblygwyd y Materion isod yn dilyn dadansoddiad o'r materion a nodwyd yn **Adroddiad** yr **Adolygiad**, adolygiad o wybodaeth wedi'i diweddaru'n gyd-destunol ac yn dilyn trafodaeth gyda Rhanddeiliaid a Chynghorwyr Sir mewn gweithdai ym mis Ebrill 2018. Amlygir materion sy'n cael eu nodi fel Materion Allweddol gan Randdeiliaid a Chynghorwyr Sir gyda seren.

1.3. Er mwyn sicrhau cysondeb gyda Chynllun Llesiant Sir Benfro 2018, mae Materion y CDLl wedi eu grwpio o dan benawdau'r pedair blaenoriaeth a nodwyd gan Gynllun Llesiant Sir Benfro - **Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Ymdrin â'r Natur Wledig** a **Gwarchod ein Hamgylchedd.**

## *** Materion Allweddol, Materion a Phenawdau**

**Mae llawer o'r materion a nodwyd yn drawsbynciol a byddant yn dylanwadu ar lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws y pynciau a nodwyd.**

### BYW A GWEITHIO

- Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun, amcangyfrifir y bydd llai o bobl yn byw yn Sir Benfro nag yn 2014. (Er y bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu tan 2029).
- Bydd poblogaeth Sir Benfro yn heneiddio gyda mwy o bobl dros 65 oed, a llai o bobl ifanc.
- * Bydd angen cynyddol am dai addas ar gyfer pobl hŷn a gofal iechyd priodol.
- * Mae angen ymdrin ag allfudiad pobl ifanc trwy dai, cyflogaeth a chanol trefi mwy bywiog a chyswllt â phrosiectau adfywio
- Bydd aelwydydd yn llai a bydd mwy o aelwydydd nag a geir yn awr.
- Bydd angen parhaus am dai fforddiadwy sef 1641 o gartrefi fforddiadwy bob blwyddyn. (Mae gennym restr aros gyffredin o 2179 o bobl sydd angen tai). Dylid archwilio ffyrdd newydd o sicrhau tai fforddiadwy trwy ddatblygu safleoedd neu drwy gyfraniadau gan ddatblygiadau tai'r farchnad.
- Nid yw rhai Safleoedd Tai Strategol mawr (Slade Lane, Shoals Hook Lane, Maesgwynne) wedi'u datblygu ac mae safleoedd bach a chanolig yn fwy tebygol o gael eu dwyn ymlaen gan y farchnad dai leol.

[2] Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru - Argraffiad 2 Awst 2015, Adran 6.1.1

- Mae llai o dai wedi'u hadeiladu nag a ragwelwyd ers 2013 ac ers 2015 mae llai o dai wedi'u hadeiladu mewn ardaloedd trefol nag a gynlluniwyd, ond mae'r Cynllun yn parhau i ddarparu lefelau da o dai fforddiadwy.
- * Mae angen cartrefi i bawb sy'n galluogi pobl i aros yn eu cymunedau ac sy'n addas i'w hanghenion[3], mae ail gartrefi a thai fforddiadwy yn ystyriaethau allweddol.
- * Mae angen sicrhau bod safleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu cyflwyno i gefnogi cyflogaeth mewn cymunedau ac ystyried graddfa, arallgyfeirio a gweithio hyfyw, a chynllunio ar gyfer lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil.
- * Gwelliannau i wasanaethau cludiant a bysiau mewn ardaloedd gwledig
- *Bydd angen ymdrin â darparu seilwaith priodol i gefnogi cymunedau a mynediad cynaliadwy yn ystod yr adolygiad o'r cynllun – mae hyn cyn cynnwys mynediad at fand eang a'r rhyngrwyd ynghyd â gwelliannau i seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd.
- Byddwn yn rhan o Ddinas Ranbarth Bae Abertawe a Bargen Ddinesig Bae Caerdydd
- Bydd Parth Menter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn parhau i gael ei ddynodi
- Mae angen defnyddio synnwyr cyffredin wrth ymdrin â ffiniau aneddiadau
- Mae'n bosibl y bydd Brexit yn newid ein heconomi a'n ffordd o fyw a gweithio
- Mae'n bosibl y bydd newid gofynion y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer safleoedd megis Breudeth yn arwain at oblygiadau ar gyfer Sir Benfro.

## CYMUNEDAU DYFEISGAR

- Rydym wedi nodi'r angen am 32 o leiniau ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr erbyn 2020
- Yr angen i gynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg trwy raddfa a lleoliad datblygiad tai, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol. Gellir galluogi cymunedau cryf a dyfeisgar trwy greu lle ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- * Mae angen cydnabod gwerth iaith, treftadaeth a diwylliant wrth greu lle.
- Gallai canolfannau cymunedol gynnig cyfleoedd i gefnogi cymunedau dyfeisgar

## YMDRIN Â'R NATUR WLEDIG

- Mae'r rhan fwyaf o ganol trefi yn brwydro yn erbyn cyfraddau eiddo gwag uwch na'r cyfartaledd a bydd angen llai o ddyraniadau manwerthu na'r hyn a nodwyd yn y CDLl. Mae angen dull diwygiedig o weithredu sy'n cydnabod bod canol trefi yn newid i amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau ac mae *lleihau nifer yr eiddo gwag, ardrethi busnes ac adfywio canol trefi yn faterion allweddol.

[3] Yn cynnwys storio gwastraff ac ailgylchu

- Mae angen dull newydd o ddosrannu ar gyfer tywod a graean ar draws y rhanbarth er mwyn helpu i leihau cynhyrchu yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.
- Mae llai o ddatblygiad na'r hyn a ragwelwyd wedi dod ymlaen mewn safleoedd cyflogaeth strategol (Blackbridge / Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro / Parc Busnes Llwynhelyg / Trecwn).
- Mae angen inni ddiweddaru cynlluniau trafnidiaeth i adlewyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd (2015-2020).
- Mae nifer o ardaloedd gwledig yn colli gwasanaethau allweddol ac yn wynebu cynigion newydd ar gyfer modelau darparu.

**DIOGELU EIN HAMGYLCHEDD**

- * Mae mwyafrif ein bywyd gwyllt a'n cynefinoedd mewn cyflwr cymedrol neu wael er gwaethaf ymdrechion cadwraeth[4], mae angen diogelu bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau
- * Mae llety i dwristiaid yn newid ac mae angen inni ystyried hyn, gan gynnwys lle y gellir lleoli neu ymestyn safleoedd newydd
- * Bydd Newid Hinsawdd yn effeithio ar gymunedau (yn enwedig rhai arfordirol neu rai sydd mewn perygl o lifogydd) a'r amgylchedd.
- * Mae angen amddiffyn mannau agored a seilwaith gwyrdd i gefnogi llesiant cymunedau.
- Rhaid parchu manteision gerddi a'u cyfraniad at fywyd gwyllt, cynefinoedd, bioamrywiaeth a naws am le a lle bo modd, sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn nwysedd datblygiadau tai newydd.
- Dylid sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei gydnabod a'i ddiogelu, ei gadw a'i wella.
- Dylid cefnogi defnydd o ynni cynaliadwy adnewyddadwy, ynni isel***** a mynediad i'r grid o fewn datblygiadau tai.
- Dwysáu arferion amaethyddol gan gynnwys ad-drefnu i ddefnyddio unedau ffermydd mwy a'r effaith bosibl ar yr amgylchedd gan gynnwys parthau perygl nitradau.
- Yr angen i sicrhau y bydd y datblygiadau yn cynnal Systemau Draenio Cynaliadwy.

## Cwestiynau Ymgynghori

1. **A ydych chi'n cytuno â'r Materion a nodwyd?**

2. **A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu cynnig i'r Materion a nodwyd?**

[4] Mae diweddariad 'Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro' 2016 yn nodi mai dim ond 3 o safleoedd bywyd gwyllt neu gynefinoedd sydd mewn cyflwr da (o 23)

## 2. Gweledigaeth Ddrafft

2.1. Mae canllawiau a pholisi Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn gosod gweledigaeth a strategaeth gryno, hirdymor. Maent yn awgrymu y dylai'r Weledigaeth hon fod yn glir, wedi'i chytuno gan y gymuned a rhanddeiliaid ac yn nodi sut y bwriedir datblygu lleoedd, eu newid neu eu cadw.[5]

2.2. Datblygwyd y Weledigaeth Ddrafft yn dilyn trafodaethau gyda Chynghorwyr Sir a Rhanddeiliaid Allweddol mewn gweithdai ym mis Ebrill 2018. Mae'n nodi'r ffyrdd y mae'r grwpiau hyn yn gobeithio y bydd y CDLl yn mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu Sir Benfro yn y cyfnod hyd at 2033. Mae'r Weledigaeth hefyd yn adlewyrchu elfennau allweddol o Gynllun Llesiant Sir Benfro (2018) a Chynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008).

2.3. Y Weledigaeth Ddrafft a gynigiwyd ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033 yw:

> Yn 2033 mae Sir Benfro yn lle sydd â chymunedau ffyniannus cryf, lle mae heriau'r natur wledig yn cael eu trin yn llwyddiannus. Mae naws unigryw am le yn bodoli yn seiliedig ar ei threftadaeth naturiol, ddiwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir. Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau newydd, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a glas a sectorau newydd sy'n gysylltiedig â'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon. Mae Canolfannau Tref yn lleoedd bywiog y gwneir amrywiaeth o ddefnyddiau ohonynt. Cefnogir cymunedau gwledig i ymdrin ag arferion amaethyddol sy'n newid. Ar draws y Sir, mae Seilwaith Gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella gydag amgylcheddau hygyrch ac iach yn cael eu darparu ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.

### Cwestiynau Ymgynghori

**3. Ydych chi'n cytuno â'r Weledigaeth Ddrafft ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033?**

[5] Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9 (Adran 2.2.1) a Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru - Argraffiad 2 - Awst 2015, Adran 6.1.1.

**4. A oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld yn y Weledigaeth Ddrafft?**

## 3. Amcanion Drafft

2.1. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai CDLl nodi prif amcanion y cynllun yn glir, ynghyd â chyfeiriad cyffredinol y newid.[6]

2.2. Mae'n bwysig fod Amcanion y CDLl yn adlewyrchu Gweledigaeth y Cynllun ac yn nodi sut y bydd y materion a nodwyd fel rhai sy'n wynebu'r ardal yn cael sylw trwy'r CDLl. Datblygwyd yr Amcanion Drafft ar y cyd â Chynghorwyr Sir a Rhanddeiliaid Allweddol mewn gweithdai ym mis Ebrill 2018.

2.3. Dyma'r Amcanion Drafft a nodwyd ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033:

A) Lliniaru ac Ymateb i her Newid Hinsawdd.
B) Cyflwyno datblygiad o ansawdd uchel lle mae gwneud lle yn cael ei gefnogi gan ddyluniad cynaliadwy sy'n ymateb i'r dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig.
C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau sy'n cychwyn, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Mentrau Bach a Chanolig
D) Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi
E) Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygu ynni gwyrdd, datblygiad morwrol a datblygiad sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd
F) Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
G) Cefnogi ystod o ddefnyddiau yn y Canolfannau Tref i gynorthwyo adfywio.
H) Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt trwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd.
I) Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith a chyfleusterau a chyfarwyddo datblygiad i leoliadau cynaliadwy.
J) Gwarchod tirwedd ac amgylchedd y Sir.

## Cwestiynau Ymgynghori

### 5. A ydych chi'n cytuno â'r Amcanion Drafft ar gyfer y CDLl Newydd 2017-2033?

[6] Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9)

**6. A oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Amcanion Drafft?**

## ATODIADAU

### 1. Cysondeb y Weledigaeth Ddrafft yn erbyn yr Amcanion Drafft

Matrics cysondeb: Cynllun Datblygu Lleol 2 Amcanion Drafft (colofn) a Chynllun Datblygu Lleol 2 Gweledigaeth Ddrafft (rhes uchaf)

| | |
|---|---|
| | **Cysondeb cadarnhaol cryf** |
| | **Cysondeb niwtral / peth cysondeb cadarnhaol** |

| | Yn 2033 mae Sir Benfro yn lle sydd â chymunedau dyfeisgar cryf, lle mae heriau ei natur wledig yn cael eu trin yn llwyddiannus. | Mae naws unigryw am le yn bodoli yn seiliedig ar ei threftadaeth naturiol, diwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. | Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir. | Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau sy’n cychwyn, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon. | Mae Canolfannau Tref yn lleoedd bywiog y gwneir amrywiaeth o ddefnyddiau ohonynt | Cefnogir cymunedau gwledig i ddelio ag arferion amaethyddol sy'n newid. | Ar draws y Sir, mae Seilwaith Gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella gydag amgylcheddau hygyrch ac iach yn cael eu darparu ar gyfer pobl a bywyd gwyllt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A) Lliniaru ac Ymateb i her Newid Hinsawdd. | | | | | | | |
| B) Cyflwyno datblygiad o ansawdd uchel lle mae ‘gwneud lle’ yn cael ei gefnogi gan ddyluniad cynaliadwy sy'n ymateb i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig. | | | | | | | |
| C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau sy’n cychwyn, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac | | | | | | | |

| | Yn 2033 mae Sir Benfro yn lle sydd â chymunedau dyfeisgar cryf, lle mae heriau ei natur wledig yn cael eu trin yn llwyddiannus. | Mae naws unigryw am le yn bodoli yn seiliedig ar ei threftadaeth naturiol, diwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. | Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir. | Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau sy’n cychwyn, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon. | Mae Canolfannau Tref yn lleoedd bywiog y gwneir amrywiaeth o ddefnyddiau ohonynt | Cefnogir cymunedau gwledig i ddelio ag arferion amaethyddol sy'n newid. | Ar draws y Sir, mae Seilwaith Gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella gydag amgylcheddau hygyrch ac iach yn cael eu darparu ar gyfer pobl a bywyd gwyllt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ehangu Mentrau Bach a Chanolig | | | | | | | |
| D) Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi | | | | | | | |
| E) Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygu ynni gwyrdd, datblygiad morwrol a datblygiad sy’n gysylltiedig â phorthladdoedd | | | | | | | |
| F) Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg | | | | | | | |
| G) Cefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau yn y Canolfannau Tref i gynorthwyo adfywio | | | | | | | |
| H) Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt trwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd. | | | | | | | |
| I) Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith a | | | | | | | |

| | Yn 2033 mae Sir Benfro yn lle sydd â chymunedau dyfeisgar cryf, lle mae heriau ei natur wledig yn cael eu trin yn llwyddiannus. | Mae naws unigryw am le yn bodoli yn seiliedig ar ei threftadaeth naturiol, diwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. | Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir. | Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau sy'n cychwyn, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon. | Mae Canolfannau Tref yn lleoedd bywiog y gwneir amrywiaeth o ddefnyddiau ohonynt | Cefnogir cymunedau gwledig i ddelio ag arferion amaethyddol sy'n newid. | Ar draws y Sir, mae Seilwaith Gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella gydag amgylcheddau hygyrch ac iach yn cael eu darparu ar gyfer pobl a bywyd gwyllt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| chyfleusterau a chyfarwyddo datblygiad i leoliadau cynaliadwy | | | | | | | |
| J) Gwarchod tirwedd ac amgylchedd y Sir. | | | | | | | |

## 2. Cysondeb y Weledigaeth gyda Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Matrics cysondeb: Cynllun Datblygu Lleol 2 Gweledigaeth Ddrafft (colofn) a nodau llesiant Llywodraeth Cymru (rhes uchaf)

| | |
|---|---|
| (gwyrdd) | **Cysondeb cadarnhaol cryf** |
| (gwyn) | **Cysondeb niwtral / peth cysondeb cadarnhaol** |

| | **Cymru ffyniannus** | **Cymru gydnerth** | **Cymru iachach** | **Cymru fwy cyfartal** | **Cymru o gymunedau cydlynol** | **Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu** | **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn 2033 mae Sir Benfro yn lle sydd â chymunedau dyfeisgar cryf, lle mae heriau'r antur wledig yn cael eu trin yn llwyddiannus. | Cymunedau dyfeisgar yw'r rheiny sy'n arloesol ac yn gynhyrchiol ac yn defnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur. | | Mae cymunedau cryf, cysylltiedig yn helpu i leihau arwahanrwydd a chreu ymdeimlad o berthyn. | Bydd ymdrin â heriau'r natur wledig fel mynediad at wasanaethau a'r angen am dai fforddiadwy yn helpu i sicrhau Cymru fwy cyfartal. | Bydd sicrhau cymunedau cryf a dyfeisgar ac ymdrin â heriau gwledig fel mynediad at wasanaethau a'r angen am dai fforddiadwy yn sicrhau cymunedau cydlynus. | Gall cymunedau cryf ddarparu cyfleoedd i gynnal y Gymraeg. | Gall cael cymunedau dyfeisgar sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur gyfrannu at fod yn Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. |
| Mae naws unigryw am le yn bodoli yn seiliedig ar ei threftadaeth naturiol, diwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. | | | | | Mae creu naws arbennig am le sy'n adlewyrchu treftadaeth o bob math yn allweddol i greu cymunedau deniadol (agwedd ar gymunedau cydlynus). | Mae cyflawni naws arbennig am le yn seiliedig ar dreftadaeth naturiol, diwylliannol, adeiledig ac ieithyddol yn hanfodol i sicrhau bod gan Gymru ddiwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. | |
| Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn | Mae economi sy'n galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir yn | | **Mae** darparu cartrefi i bawb (yn enwedig trwy ddarparu tai | Mae darparu cartrefi i bawb yn agwedd allweddol ar alluogi pobl i | Mae darparu cartrefi a chyfleoedd economaidd yn rhan bwysig o sicrhau bod | | |

| | Cymru ffyniannus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynol | Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir. | un sy'n caniatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau swyddi da. | | fforddiadwy) yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd oherwydd bod yna gysylltiad cryf rhwng tai o ansawdd gwael ac annigonol a chanlyniadau iechyd negyddol. | gyflawni eu potensial. Mae sicrhau bod yr economi yn ddigon cryf i alluogi pobl o bob oed i aros yn y Sir yn elfen bwysig arall. | cymunedau yn hyfyw, yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda. | | |
| Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau sy’n cychwyn, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrfford Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon. | Mae hyrwyddo ynni gwyrdd yn cysylltu’n uniongyrchol â hyrwyddo cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel. | Mae cefnogaeth ar gyfer ynni gwyrdd yn cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. | | Mae sicrhau bod digon o gyfleoedd cyflogaeth ar gael yn elfen allweddol o ddarparu Cymru fwy cyfartal. | Mae cyflawni cyfleoedd cyflogaeth yn agwedd allweddol ar sicrhau bod cymunedau'n parhau i fod yn hyfyw. | Bydd darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol yn helpu cymunedau sy'n siarad Cymraeg i ffynnu. | Dylai hyrwyddo'r economi werdd yn ogystal â darparu cyfleoedd strategol sy'n gysylltiedig â lleoliad daearyddol Sir Benfro, wneud cyfraniad positif i lesiant byd-eang. |
| Mae Canolfannau Tref yn lleoedd bywiog y gwneir amrywiaeth o | Dylai'r ymagwedd hon gynorthwyo i greu cyfoeth a darparu cyfleoedd cyflogaeth. | | Gall cyfleoedd i gymdeithasu helpu i leihau arwahanrwydd. | | Mae sicrhau bod canol trefi yn fywiog yn rhan o gyflenwi cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd wedi’u cysylltu’n dda. | | |

| | Cymru ffyniannus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynol | Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ddefnyddiau ohonynt. | | | | | | | |
| Cefnogir cymunedau gwledig i ddelio ag arferion amaethyddol sy'n newid. | Mae ymateb i arferion amaethyddol sy'n newid yn agwedd ar annog defnyddio adnoddau yn effeithlon. | | | | Mae cynorthwyo cymunedau gwledig wrth iddynt addasu i newid yn rhan o sicrhau bod cymunedau'n parhau i fod yn ddeniadol, yn hyfyw, yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda. | | Mae darparu fframwaith cynaliadwy i ymateb i newidiadau fel gofynion rheoleiddiol megis Parthau Perygl Nitradau yn rhan o gefnogi Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. |
| Ar draws y Sir, mae Seilwaith Gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella gydag amgylcheddau hygyrch ac iach yn cael eu darparu ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. | | Mae cefnogi seilwaith gwyrdd a sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei wella yn agwedd allweddol ar ddarparu ecosystemau sy’n gweithredu’n iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. | Dylai defnyddio seilwaith gwyrdd i ddarparu amgylcheddau sy'n iach a hygyrch gynnig cyfleoedd gwell ar gyfer hamdden gyda buddion uniongyrchol ar gyfer iechyd. | | Mae sicrhau bod seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella yn agwedd allweddol ar ddarparu cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd wedi’u cysylltu’n dda â'i gilydd. | | Mae sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei wella a bod amgylcheddau iach yn cael eu darparu yn agwedd bwysig ar sut y gall Sir Benfro (a Chymru) gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## 3. Cysondeb yr Amcanion gyda Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Matrics cysondeb: Amcanion Drafft Cynllun Datblygu Lleol 2 (colofnau) a nodau llesiant Llywodraeth Cymru (rhes uchaf)

**Cysondeb cadarnhaol cryf**
**Cysondeb niwtral / peth cysondeb cadarnhaol**

| | Cymru ffyniannus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A) Lliniaru ac Ymateb i her Newid Hinsawdd. | | | | | | | |
| B) Cyflwyno datblygiad o ansawdd uchel lle mae 'gwneud lle' yn cael ei gefnogi gan ddyluniad cynaliadwy sy'n ymateb i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig. | | | | | | | |
| C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau sy'n cychwyn, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu | | | | | | | |

| | Cymru ffyniannus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mentrau Bach a Chanolig | | | | | | | |
| D) Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi | | | | | | | |
| E) Datblygu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygu ynni gwyrdd, datblygiad morwrol a datblygiad sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd | | | | | | | |
| F) Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. | | | | | | | |
| G) Cefnogi ystod o ddefnyddiau yn y Canolfannau Tref i gynorthwyo adfywio. | | | | | | | |
| H) Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt trwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd. | | | | | | | |
| I) Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith a | | | | | | | |

| | Cymru ffyniannus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| chyfleusterau a chyfarwyddo datblygiad i leoliadau cynaliadwy. | | | | | | | |
| J) Gwarchod tirwedd ac amgylchedd y Sir. | | | | | | | |

## 4. Cysondeb â'r Weledigaeth yn erbyn Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro

Matrics cysondeb: Gweledigaeth Ddrafft Cynllun Datblygu Lleol 2 (colofnau) a Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro (rhes uchaf)

**Cysondeb cadarnhaol cryf**
**Cysondeb niwtral / peth cysondeb cadarnhaol**

| | Byw a Gweithio | Cymunedau Dyfeisgar | Ymdrin â'r Natur Wledig | Diogelu Ein Hamgylchedd |
|---|---|---|---|---|
| Yn 2033 mae Sir Benfro yn lle sydd â chymunedau dyfeisgar cryf, lle mae heriau'r antur wledig yn cael eu trin yn llwyddiannus. | | | | |
| Mae naws arbennig am le yn bodoli yn seiliedig ar ei threftadaeth naturiol, diwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. | | | | |
| Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir. | | | | |
| Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau sy'n cychwyn, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon. | | | | |
| Mae Canolfannau Tref yn lleoedd bywiog y gwneir amrywiaeth o ddefnyddiau ohonynt. | | | | |
| Cefnogir cymunedau gwledig i ddelio ag arferion amaethyddol sy'n newid. | | | | |
| Ar draws y Sir, mae Seilwaith Gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella gydag amgylcheddau hygyrch ac iach yn cael eu darparu ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. | | | | |

## 5. Cysondeb yr Amcanion yn erbyn Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro

Matrics cysondeb: Cynllun Datblygu Lleol 2 Amcanion Drafft (colofnau) a Blaenoriaethau Cynllun Lles Sir Benfro (rhes uchaf)

| | **Byw a Gweithio** | **Cymunedau Dyfeisgar** | **Ymdrin â'r Natur Wledig** | **Diogelu Ein Hamgylchedd** |
|---|---|---|---|---|
| A) Lliniaru ac Ymateb i her Newid Hinsawdd. | | | | |
| B) Cyflwyno datblygiad o ansawdd uchel lle mae 'gwneud lle' yn cael ei gefnogi gan ddyluniad cynaliadwy sy'n ymateb i'r dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig. | | | | |
| C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau sy'n cychwyn, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Mentrau Bach a Chanolig | | | | |
| D) Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi | | | | |
| E) Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygu ynni gwyrdd, datblygiad morwrol a datblygiad sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd | | | | |
| F) Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. | | | | |
| G) Cefnogi ystod o ddefnyddiau yn y Canolfannau Tref i gynorthwyo adfywio. | | | | |
| H) Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt trwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd. | | | | |
| I) Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith a chyfleusterau, a chyfarwyddo datblygiad i leoliadau cynaliadwy. | | | | |

| | Byw a Gweithio | Cymunedau Dyfeisgar | Ymdrin â’r Natur Wledig | Diogelu Ein Hamgylchedd |
|---|---|---|---|---|
| J) Gwarchod tirwedd ac amgylchedd y Sir. | | | | |